



Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Cacwn

Ionawr 2022

Mae 24 o rywogaethau o gacwn yn y DU. Mae cacwn yn edrych yn eithaf gwahanol i wenyn mêl a gwenyn unig. Y gwahaniaeth mwyaf dibynadwy yw bod cacwn fel arfer yn fwy ac wedi'u gorchuddio â blew gwlanog a thrwchus bob amser. Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys mwy o wybodaeth am y trychfil.

Sut y gallaf adnabod rhywogaethau?

Mae gan gacwn brodorol neu gyffredin gynffonau gwyn, coch, llwydfelyn neu frown. Wrth i'r gacynen fynd yn hŷn, gall rhai lliwiau bylu, felly mae'n bosibl y bydd cynffonau 'coch' yn dechrau edrych yn llwydfelyn neu'n oren tua diwedd yr haf. Gall nifer, lliw a lleoliad cylchoedd amrywio yn dibynnu ar rywogaeth y gacynen, ond mae patrwm nodweddiadol yn cynnwys dau gylch melyn: un ar y thoracs, ac un ar yr abdomen. Du yw'r blew ar ben y gacynen. Os byddwch yn ansicr, cymharwch y cylchoedd lliw, yn enwedig ar y gynffon a'r thoracs, â chanllaw maes.

Beth yw cylch oes cacwn?

Yn y Gwanwyn: gellir gweld breninesau sydd newydd ymddangos yn hedfan ar hyd gwrychoedd ac yn plymio i mewn i'r isdyfiant i chwilio am dyllau lle y gallant sefydlu nyth. Byddant yn gaeafu ar eu pen eu hunain, gan fyw ar ddyddodion braster a gronnwyd yr hydref blaenorol. Bydd rhai rhywogaethau, megis y gardwenynen, *Bombus pascuorum*, yn nythu mewn pentyrrau trwchus o ddail neu laswellt. Wrth chwilio am safle nythu, bydd breninesau'n bwydo eu hunain ar neithdar a phail i ddatblygu eu hofarïau. Pan fydd wedi dewis safle nythu, bydd y frenhines yn ffurfio twmpath o baill a chŵyr (y bydd yn eu secretu o'i chorff) ac yn dodwy ei hwyau cyntaf. Bydd hefyd yn casglu neithdar ac yn ei storio mewn strwythur siâp pot wedi'i wneud o gŵyr a gaiff ei osod o flaen ei thwmpath. Bydd y frenhines yn cadw'r wyau'n gynnes drwy eistedd ar ei 'nyth' cŵyr a chrynu ei chyhyrau i gynhyrchu gwres, gan lymeitio o'i phot o neithdar er mwyn cael digon o egni i ori'r wyau am sawl diwrnod, nes i larfâu bach gwyn tebyg i gynrhon ymddangos. Caiff y larfâu hyn eu bwydo ar baill a neithdar y bydd y frenhines yn mynd yn ôl ac ymlaen i'w casglu o flodau cyfagos. Ar ôl iddynt fwyta digon, ar ôl tua phythefnos, byddant yn gweu cocŵn lle y byddant yn datblygu'n gacwn llawndwf.

Ar Ddechrau'r Haf: Bydd y mag cyntaf o gacwn gweithgar yn dechrau fforio am neithdar a phail, gwneud cŵyr a helpu'r frenhines i ddatblygu'r nyth yn gyffredinol. Bydd cylchoedd o fag yn parhau i ddatblygu'r nythfa i gynnwys cannoedd o gacwn, yn dibynnu ar y rhywogaeth. Bydd rhai cacwn gweithgar yn gwarchod neu'n glanhau'r nyth, tra bydd eraill yn fforio am baill a neithdar o flodau. Caiff rhywfaint o'r neithdar ei fwyta gan y cacwn gweithgar, ond cludir y rhan fwyaf ohono yn ôl i'r nythfa i fwydo'r cacwn gweithgar eraill a'r llwyth nesaf o epil. O hyn ymlaen, ni fydd y frenhines yn gadael y nyth a bydd yn aros y tu mewn yn dodwy mwy o wyau.

Ar Ddiwedd yr Haf: bydd cacwn gormes (gwrywod) a breninesau yn datblygu. Bydd cacwn gormes yn datblygu o wyau heb eu ffrwythloni. Ar ôl datblygu, byddant yn gadael y nyth ac yn treulio eu hamser yn bwydo ar neithdar ac yn ceisio paru. Ar ôl paru, bydd breninesau newydd yn bwydo ar baill a neithdar, gan storio'r egni fel protein y tu mewn i'w cyrff. Caiff y 'braster' hwn ei ddefnyddio i roi egni iddynt wrth aeafgysgu. Bydd yr hen frenhines a'i nyth yn dod i ddiwedd eu hoes yn naturiol wrth i'r haf droi'n hydref. Dim ond y breninesau newydd a fydd yn goroesi tan y gwanwyn canlynol, drwy aeafgysgu dan ddaear.

Mae pedair rhywogaeth o gacwn 'cwcw' neu barasitig yn y Deyrnas Unedig. Bydd breninesau'n mynd i mewn i nythod gwir gacwn (neu gacwn cymdeithasol) yn y gwanwyn ac yn cuddio yng ngweddillion y nyth am gyfnod. Ymhen amser, bydd y fenyw gwcw yn lladd brenhines y cacwn cymdeithasol ac yn dechrau dodwy ei hwyau ei hun. Yn ddiarwybod, bydd y cacwn gweithgar cymdeithasol yn magu epil y gacynen gwcw fel eu hepil eu hunain nes eu bod yn llawndwf, pan fydd y cacwn cwcw yn gadael y nyth i baru ag eraill o'r un rhywogaeth cyn i'r benywod aeafgysgu. Bydd breninesau cwcw yn ymddangos y gwanwyn canlynol, ychydig yn hwyrach na'u rhywogaeth lletyol, er mwyn galluogi'r cacwn hynny i ddatblygu nythfa. Mae amseriad yr ymosodiad yn hollbwysig. Os byddant yn ymddangos yn rhy gynnar, ni fydd y nythfa yn ddigon mawr i ofalu am epil y cacwn cwcw ac, os byddant yn ymddangos yn rhy hwyr, yna bydd y nythfa'n gallu amddiffyn ei hun yn effeithiol a lladd y tresmaswr.

A yw cacwn mewn perygl?

Mae rhai difawyr plâu neu gynghorau lleol yn credu bod cacwn wedi'u rhestru fel rhywogaethau sydd mewn perygl; nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae poblogaethau cacwn wedi lleihau'n syfrdanol, a derbynnir yn gyffredinol mai newidiadau i arferion amaethyddol, yn enwedig wedi iddynt gyflymu yn ystod yr Ail Ryfel Byd a pharhau yn sgil y Polisi Amaethyddol Cyffredin, sydd wedi achosi hyn.

Gwiddon cacwn

Gall rhai cacwn fod wedi'u gorchuddio â gwiddon bach coch. *Parasitellus fucorum* yw'r gwiddon hyn, ac maent yn glynu wrth y cacwn i gael eu cludo i nythod newydd. Pan fyddant yn y nyth, bydd y gwiddon fel arfer yn bwydo ar y cŵyr, paill, gweddillion nyth a thrychfilod bach eraill, ond nid cacwn. Fodd bynnag, gall y gwiddon achosi problem os bydd gan gacynen lawndwf bla mor drwm fel na all hedfan oherwydd pwysau'r gwiddon.

Mae rhagor o wybodaeth am gacwn cwcw i'w gweld ar [wefan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn](#) (www.bumblebeeconservation.org).

National Bee Unit

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ

Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk

Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk